OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 1999 Rhif 3185 (Cy. 43)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Cyfansoddiad) (Diwygio) 1999

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *28 Hydref 1999* |
| *Yn dod i rym* | - - | *29 Hydref 1999* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn gwneud y Rheoliadau canlynol drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adrannau 1(5) a (7) o Ddeddf Addysgu ac Addysg Bellach 1998(**1**) a pharagraff 3 o Atodlen 1 iddi ac a freiniwyd bellach yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru(**2**):

**Enwi a chychwyn**

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Cyfansoddiad) (Diwygio) 1999 a deuant i rym ar 29 Hydref 1999.

**Diwygio Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Cyfansoddiad) 1999**

**2.** Diwygir Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Cyfansoddiad) 1999(**3**) yn unol â rheoliadau 3, 4, 5 a 6 isod.

**3.** Ym mharagraff (1) o reoliad 2 —

(a) hepgorer y diffiniadau o "primary school", "secondary school" a "special school";

(b) ar ôl y diffiniad o "the Council" mewnosoder —

""junior pupils" means children who have not attained the age of 12;";

(c) ar ôl y diffiniad o "members" mewnosoder —

""senior pupils" means persons who have attained the age of 12."

**4.** Rhodder y canlynol yn lle paragraff (2) o reoliad 2 —

"(2) In regulations 4 and 9 references to "teachers" shall only include a person who

(**1**) 1998 c. 30; for the meaning of "prescribed" and "regulations" see section 43(1). Section 1(5) and (7) and Schedule 1 have effect in relation to the General Teaching Council for Wales by virtue of the General Teaching Council for Wales Order 1998 (S.I. 1998/2911).

(**2**) See the National Assembly for Wales (Transfer of Functions) Order 1999 (S.I. 1999/672).

(**3**) S.I. 1999/1619.

(a) on and after the date of establishment of a register of teachers under section 3 of the 1998 Act, is a registered teacher; and

(b) before that date, is a qualified teacher within the meaning of section 218(2) of the 1988 Act.”

**5.** Rhodder y canlynol yn lle rheoliad 4 —

“**4.** The elected members shall comprise —

(a) four teachers of junior pupils;

(b) four teachers of senior pupils;

(c) four head or deputy head teachers.”

**6.** Yn rheoliad 9, ar ôl y gair “Council?” mewnosoder y geiriau “are teachers who”.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1988(**4**)

*Dafydd Elis Thomas*
28 Hydref 1999 Y Llywydd,Cynulliad Cenedlaethol Cymru

(**4**) 1998 c. 38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Effaith y diwygiad hwn fydd galluogi athrawon sy'n addysgu mewn ysgolion meithrin, ysgolion arbennig ac addysg bellach i sefyll etholiad i Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru. Ni fyddai geiriad Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Cyfansoddiad) 1999 wedi caniatáu iddynt wneud hynny gynt.

At y diben hwn, mae "athrawon" yn golygu athro sydd wedi cymhwyso o fewn ystyr adran 218(2) o Ddeddf Diwygio Addysg 1988; neu, athro cofrestredig, unwaith y bydd cofrestr o athrawon wedi'i sefydlu gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Cymru.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru (Cyfansoddiad) 1999 fel y bydd aelodau etholedig Cyngor Addysgu Cymru yn cynnwys:

(a) pedwar athro disgyblion iau (personau o dan 12 oed);

(b) pedwar athro disgyblion hŷn; (personau 12 oed neu'n hŷn);

(c) pedwar pennaeth neu ddirprwy bennaeth ysgol.